**RHAGOLWG**

**Gellir dod o hyd i ddogfennau ategol perthnasol dan "Busnes y Cynulliad" "Dogfennau a Osodwyd" sydd, fel arfer, yn cael eu gosod ar y wefan 3 diwrnod gwaith cyn y cyfarfod llawn perthnasol.**

**[Hysbyswyd gan y Trefnydd mewn datganiad i'r cynulliad Dydd Mercher 28 Tachwedd 2006]**

**Penderfyniadau**

**Yn dilyn cyfarfod y Pwyllgor Busnes a gynhaliwyd ar 28 achwedd penderfynodd y Dirprwy Lywydd, yn unol â Rheol Sefydlog 24.6**

**nad oes angen cyfeirio'r ddeddfwriaeth ganlynol i'w hystyried ymhellach gan bwyllgor pwnc:**

- **The Local Government Act 2003 (Commencement No. 1 and Savings) (Wales) Order 2006**

- **The Non-Domestic Rating (Demand Notices and Discretionary Relief) (Wales) (Amendment) Regulations 2006**

- **The Non-Domestic Rating (Small Business Relief) (Wales) Order 2006**

- **The Non-Domestic Rating Contributions (Wales) (Amendment) Regulations 2006**

- **Rheoliadau Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) (Diwygio) (Cymru) 2006**

- **Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithredrefn Datblygu Cyffredinol) (Diwygio) (Cymru) 2006**

- **The National Health Service (Dental Charges) (Wales) (Amendment) Regulations 2006**

## Y Datganiad Busnes Drafft

Dydd Mawrth 5 Rhagfyr a Dydd Mercher 6 Rhagfyr 2006

Dydd Mawrth 12 Rhagfyr a Dydd Mercher 13 Rhagfyr 2006

***Toriad 18 Rhagfyr 2006 – 12 Ionawr 2007***

Dydd Mawrth 16 Ionawr a Dydd Mercher 17 Ionawr 2007

**Dydd Mawrth 5 Rhagfyr 2006**

- **Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru (45 munud)**

- **Y Datganiad Busnes (10 munud)**

- **Datganiad gan y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol : Report on the outbreak of Cryptosporidiosis (30 munud)**

- **Cynnig i gymeradwyo o dan Reol Sefydlog 24.25 (1 funud)**

  Ø **Rheoliadau Hadau Grawnfwydydd (Cymru) a Hadau Planhigion Porthiant (Cymru) (Diwygio) 2006**

  Mae'r Rheoliadau hyn yn trosi Cyfarwyddeb y Cyngor 2006/55/EEC, a gyhoeddwyd ar 12 Mehefin 2006, ac yn cynyddu uchafswm maint lotiau hadau grawnfwydydd ar gyfer rhywogaethau heblaw indrawn o 25 i 30 tunnell. Yn ogystal, mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Hadau Grawnfwydydd (Cymru) 2005 a Rheoliadau Hadau Planhigion Porthiant (Cymru) 2005 yn unol â Chyfarwyddeb y Cyngor 2006/55/EC.

  Ø **Rheoliadau Cig (Taliadau Rheolaethau Swyddogol) (Cymru) 2006**

  Mae'r Rheoliadau hyn yn rhoi ar waith yng Nghymru y darpariaethau yn Rheoliad 882/2004 y CE ar y Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd sy'n ymwneud â'r gofynion i godi tâl am reolaethau swyddogol ar hylendid cig mewn sefydliadau cig cymeradwy. Bydd y Rheoliadau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i'r Asiantaeth Safonau Bwyd godi tâl ar weithredwyr sefydliadau cig cymeradwy yng Nghymru er mwyn adennill costau'r Gwasanaeth Hylendid Cig (MHS), un o Asiantaethau Gweithredol yr Asiantaeth Safonau Bwyd. Mae'r costau hyn yn deillio o'r rheolaethau swyddogol a gynhelir gan y Gwasanaeth Hylendid Cig mewn safleoedd o'r fath at ddibenion gwirio cydymffurfiaeth â gofynion perthnasol o ran hylendid cig.

  Ø **Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Bwydydd Anifeiliaid (Sylweddau Annymunol Penodol) (Cymru) 2006**

  Mae’r Rheoliadau hyn yn trosi Cyfarwyddebau Comisiwn 2005/86/EC, 2005/87/EC a 2006/13/EC, sy’n diwygio neu’n cyflwyno’r lefelau uchaf a ganiateir (MPL) ar gyfer

sylweddau annymunol penodol (halogion) mewn bwyd anifeiliaid. Mae’r MPLau newydd a diwygiedig wedi’u nodi yn yr Atodlen i’r Rheoliadau.

- **Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Deddf Safonau Gofal 2000 a Deddf Plant 1989 (Diwygio Rheoleiddiol a Chwynion) (Cymru) 2006 (15 munud)**

Bydd y Rheoliadau hyn yn sicrhau bod y Rheoliadau presennol ar wasanaethau a reoleiddir gan Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru (ASGC) yn cyd-fynd â dau ddatblygiad diweddar - y broses o ddiwygio arferion rheoliadol a'r fframwaith newydd ar ddelio â chwynion yn erbyn gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol.

- **Cynnig i gymeradwyo Gorchymyn Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 (Cychwyn Rhif 9 ac Arbediad) (Cymru) 2006 (15 munud)**

Mae'r Gorchymyn hwn yn rhoi mewn grym ddarpariaethau penodol yn Neddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000. Mae'r darpariaethau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau priffyrdd lleol ystyried anghenion pobl sydd â phroblemau symud, wrth iddynt godi camfeydd a chlwydi ar draws llwybrau cerdded a llwybrau ceffylau. Mae'r Gorchymyn hefyd yn cychwyn rhai darpariaethau technegol o fewn y Ddeddf ac yn esbonio effaith y darpariaethau sydd wedi'u cynnwys yn y ddau Orchymyn Cychwyn blaenorol.

- **Dadl wedi'i henwebu gan Blaid Cymru (45 munud)**
- **Dadl am 7fed Adroddiad Blynyddol y Cynulliad ar Gydraddoldeb (60 munud)**

**Dydd Mercher 6 Rhagfyr 2006**

- **Cynnig i ethol Pwyllgor Penderfyniadau Cynllunio (1 funud)**
- **Cwestiynau i Edwina Hart, y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio**

**(30 munud)**

- **Cwestiynau i Andrew Davies, y Gweinidog dros Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau (30 munud)**

- **Cwestiynau i Jane Hutt, y Trefnydd, yn unol â Rheol Sefydlog 6.28 ac fel y nodwyd yn y rhestr o gyfrifoldebau Gweinidogion (30 munud)**

- **Cynnig i drafod y ddwy eitem a ganlyn gyda'i gilydd, ond gan gynnal pleidleisiau ar wahân (15 munud)**

    - **Cynnig i gymeradwyo The Avian Influenza (H5N1 in Wild Birds) (Wales) Order 2006 o dan Reol Sefydlog 24.27(iv)**

      Bydd y Gorchymyn hwn yn rhoi Penderfyniad 2006/115/EC y Comisiwn ar waith mewn cyfraith ddomestig yng Nghymru. Mae'r Penderfyniad hwn yn ymdrin â mesurau diogelu penodol rhag ffliw adar pathogenig iawn mewn adar gwyllt yn y Gymuned ac yn diddymu Penderfyniadau 2006/86/EC, 2006/90/EC, 2006/91/EC, 2006/94/EC, 2006/104/EC a 2006/105/EC fel y'i diwygiwyd gan Benderfyniad 2006/277/EC y Comisiwn.

    - **Cynnig i gymeradwyo The Avian Influenza (H5N1 in Poultry) (Wales) Order 2006 o dan Reol Sefydlog 24.27(iv)**

      Bydd y Gorchymyn hwn yn rhoi Penderfyniad 2006/415/EC y Comisiwn ar waith mewn cyfraith ddomestig yng Nghymru. Mae'n ymdrin â mesurau diogelu penodol rhag ffliw adar pathogenig iawn mewn dofednod neu mewn carcasau dofednod yn y Gymuned ac yn diddymu Penderfyniad 2006/135/EC. Mae'r Gorchymyn yn ategu'r mesurau cyffredinol i reoli ffliw adar sydd wedi'u gosod allan yn Avian Influenza and Influenza of Avian Origin in Mammals (Wales) (No 2) Order 2006.

- **Cynnig i gymeradwyo Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau Swyddogion Canlyniadau) 2006 (15 munud)**

Mae'r Gorchymyn hwn yn ymwneud â phwer y Cynulliad i wneud Gorchymyn er mwyn paratoi ar gyfer etholiadau nesaf y Cynulliad yn 2007. Mae Rhan I a II o'r Atodlen yn pennu uchafsymiau ar gyfer y taliadau, treuliau a ffioedd y gall Swyddogion Canlyniadau eu hawlio gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar gyfer costau sy'n gysylltiedig ag etholiadau. Mae Rhan III yn darparu ar gyfer y treuliau y gall Swyddogion Canlyniadau eu hawlio, ac nad oes uchafsymiau wedi'u pennu ar eu cyfer. Mae'n dirymu Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau Swyddogion Canlyniadau) 2002 a Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol

Cymru (Taliadau Swyddogion Canlyniadau) (Diwygio) 2003.

- **Dadl ar yr Adolygiad o Gyngor y Celfyddydau (60 munud)**
- **Y ddadl fer (30 munud)**

**<u>Dydd Mawrth 12 Rhagfyr 2006</u>**

- **Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru (45 munud)**
- **Y Datganiad Busnes (10 munud)**
- **Datganiad gan Brif Weinidog Cymru: y Rhaglen Gydgyfeirio (30 munud)**

**Proposal to debate the following 2 items together but with separate votes(15 munud)**

- **Cynnig i gymeradwyo Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithredrefn Datblygu Cyffredinol) (Diwygio) (Cymru) 2006**

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Datblygu Cyffredinol) 1995. Mae'n darparu ar gyfer y datganiadau mynediad y mae'n rhaid eu cyflwyno gyda rhai ceisiadau am ganiatâd cynllunio.

- **Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) (Diwygio) (Cymru) 2006**

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990. Maent yn darparu ar gyfer y datganiadau mynediad y mae'n rhaid eu cyflwyno gyda cheisiadau am ganiatâd adeiladau rhestredig.

**Proposal to debate the following 4 items together but with separate votes (30 munud)**

- **Cynnig i gymeradwyo The Non-Domestic Rating Contributions (Wales) (Amendment) Regulations 2006**

Mae'n rhaid wrth y Rheoliadau hyn er mwyn rhoi'r Cynllun Rhyddhad Ardrethi Busnesau Bach ar waith. O dan Ran II Atodlen 8 Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988, mae gofyn i awdurdodau bilio dalu symiau o arian (y cyfraniadau ardrethi annomestig fel y'u gelwir) i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae Rheoliadau Cyfraniadau Ardrethi Annomestig (Cymru) 1992 yn rhestru'r rheolau ar gyfer cyfrif cyfraniadau awdurdodau bilio Cymru.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau 1992 trwy newid geiriad paragraff 3(1) Atodlen 1 (Rheolau ar gyfer Cyfrif Cyfraniadau Ardrethi Annomestig) fel bod y didyniad o 90% y cyfeirir ato yn y paragraff hwnnw yn ymwneud yn unig â'r rhyddhad ardrethi disgresiwn y mae awdurdodau bilio yn cael ei roi mewn perthynas â'r hereditamentau yr ymdrinnir â hwy yn adran 47(2)(b), (ba) ac (c). O ganlyniad, ni fydd didyniad o'r rhyddhad ardrethi annomestig a roddir gan awdurdodau bilio i drethdalwyr sy'n meddiannu hereditamentau y mae adran 43(4B) Deddf 1988 yn ymdrin â hwy (hereditamentau sy'n derbyn rhyddhad ardrethi busnesau bach gorfodol). Eiddo a buddiannau mewn eiddo y mae gofyn talu ardrethi busnes arno yw hereditament, at y dibenion hyn.

- **Cynnig i gymeradwyo The Non-Domestic Rating (Small Business Relief) (Wales) Order 2006**

Mae'r Gorchymyn hwn yn darparu ar gyfer cynllun rhyddhad ardrethi busnesau bach yng Nghymru i gymryd lle'r cynllun rhyddhad ardrethi gwledig, nawr bod adran 63 Deddf Llywodraeth Leol 2003 wedi dod i rym. Mae'r adran hon yn diwygio adrannau 42A, 43 a 47 Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 (fel bod y cynllun rhyddhad ardrethi gwledig sy'n dod i ben yng Nghymru yn cael ei gadw trwy'r Gorchymyn hwn ar gyfer y blynyddoedd ariannol a ddaw i ben ar neu cyn 31 Mawrth 2007).

- **Cynnig i gymeradwyo The Non-Domestic Rating (Demand Notices and Discretionary Relief) (Wales) (Amendment) Regulations 2006**

Mae'r Rheoliadau hyn yn ofynnol i roi'r Cynllun Rhyddhad Ardrethi Busnesau Bach ar waith. Maent yn diwygio Rheoliadau Ardrethi Annomestig (Rhyddhad Disgresiwn) 1989 trwy ddiddymu'r angen i awdurdodau bilio anfon rhybudd o 12 mis at dalwyr ardrethi os mai effaith adran 63 Deddf Llywodraeth Leol 2003 pan ddaw i rym fydd ei gwneud yn ofynnol i dalwyr ardrethi dalu swm taladwy mwy.

Mae’r Rheoliadau’n diwygio hefyd Rheoliadau Ardrethi Annomestig (Hysbysiadau Galw am Dalu) (Cymru) 1993 trwy ei gwneud yn ofynnol ar awdurdodau bilio amgau nodyn sy’n disgrifio effaith cyflwyno’r cynllun rhyddhad busnesau bach yn eu hysbysiadau galw am dalu ardrethi annomestig.

- **Cynnig i gymeradwyo The Local Government Act 2003 (Commencement No. 1 and Savings) (Wales) Order 2006**

Daw’r Gorchymyn hwn ag adran 63 Deddf Llywodraeth Leol 2003 i rym ar 1 Ebrill 2007. Mae’r adran hon yn diddymu yng Nghymru y rhyddhad ardrethi gorfodol a disgresiwn yn y cynllun rhyddhad ardrethi gwledig (a sefydlwyd gan ddarpariaethau yn adrannau 42A(1), 43(6B) a 47(3A) Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988) trwy ddiwygio’r darpariaethau presennol fel eu bod yn ymwneud â Lloegr yn unig.

- **Slot wedi’i gadw ar gyfer is-ddeddfwriaeth (15 munud)**
- **Cynnig wedi’i enwebu gan Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru**

**<u>Dydd Mercher 13 Rhagfyr 2006</u>**

- **Cwestiynau Cyllid i Sue Essex, y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus (30 munud)**
- **Cwestiynau i Carwyn Jones, y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad (30 munud)**
- **Cynnig I gymeradwyo o dan Reol Sefydlog 24.25 ( 1 munud)**

    Ø **Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Cynhyrchion Pysgodfeydd (Taliadau Rheolaethau Swyddogol) (Cymru) 2006**

Bydd darpariaethau ar gyfer ariannu rheolaethau swyddogol, gan gynnwys y rheini sy’n ymwneud â thaliadau archwilio hylendid o dan Reoliad (CE) 882/2004 ar Reolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2006 (OS 2006 Rhif 590 (C.66)) Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol ar  Fwyd Anifeiliaid a Bwyd), a fydd yn berthnasol ledled yr UE o 1 Ionawr 2007 ymlaen, yn dirymu sail ddeddfwriaethol yr

UE ar gyfer y drefn gyfredol i wneud taliadau hylendid cynhyrchion pysgodfeydd (Cyfarwyddeb y Cyngor 85/73/EEC). Diben Rheoliad yr UE, wrth bennu'r darpariaethau talu ar gyfer archwiliadau hylendid, yw mynnu cyfraniadau at gostau'r awdurdodau gorfodi wrth samplu a phrofi cynhyrchion pysgodfeydd a gaiff eu glanio, er mwyn sicrhau eu bod yn bodloni'r safonau hylendid a nodir yn neddfwriaeth yr UE. Gall cynhyrchion o'r fath ddod i Gymru heb fod yn destun rheolaethau yn y man cyrraedd, ac felly mae angen y camau gwirio hyn i fonitro cynhyrchion pysgodfeydd o'r fath er mwyn sicrhau eu bod yn bodloni safonau hylendid yr UE, a'u bod yn addas i gael eu bwyta gan bobl.

Mae'r Rheoliadau hyn yn ei gwneud yn bosibl i Awdurdodau Bwyd Lleol adennill cyfraniad tuag at gostau taliadau archwilio hylendid o safbwynt pysgod a chynhyrchion pysgodfeydd a gaiff eu glanio yng Nghymru ar ôl cael eu dal yn eu hamgylchedd naturiol yn y canlynol:

- Aelod-Wladwriaethau;
- Gwladwriaethau Ardal Economaidd Ewropeaidd eraill ac eithrio'r Aelod-Wladwriaethau;
- Kalaallit Nunaat (Greenland);
- Trydydd Gwledydd.

- **Cynnig i gymeradwyo The National Health Service (Dental Charges) (Wales) (Amendment) Regulations 2006 (15 munud)**

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r National Health Service (Dental Charges) (Wales) Regulations 2006 er mwyn tynnu paragraff (i) o Atodlen 3 y Rheoliadau, er mwyn caniatau defnyddio yn unig yr aloiau anwerthfawr (nid aur, arian, platinwm na phaladiwm) a gynhwysir yn Atodlen 3(d). Mae'r Rheoliadau hyn yn tynnu'r cyfeiriad at "crowns in other materials" o'r rhestr o ddyfeisiau y gellir codi tâl Band 3 amdanynt.

- **Slot wedi'i gadw ar gyfer is-ddeddfwriaeth (15 munud)**
- **Dadl ar y Gyllideb derfynol (90 munud)**

- **Y ddadl fer (30 munud)**

**<u>Dydd Mawrth, 16 Ionawr 2006</u>**

- **Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru (45 munud)**

- **Datganiad Busnes (10 munud)**

- **Dadl wedi'i henwebu gan Blaid Geidwadol Cymru (45 munud)**

- **Dadl ar 5ed Adroddiad Blynyddol Comisiynydd Plant Cymru (60 munud)**

- **Dadl ar adolygiad polisi'r Pwyllgor Cyfle Cyfartal : Adroddiad ar y Gwasanaethau a Ddarperir i Bobl Ifanc Anabl (60 munud)**

**<u>Dydd Mercher, 17 Ionawr 2007</u>**

- **Cwestiynau i Brian Gibbons, y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (30 munud)**

- **Cwestiynau i Alun Pugh, y Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon (30 munud)**

- **Cwestiynau i Bwyllgor y Ty (5 munud)**

- **Cynnig i ddirprwyo swyddogaethau o dan Ddeddf Tir Comin 2006 i Brif Weinidog Cymru (10 munud)**

- **Dadl ar Adroddiad Cyllid Llywodraeth Leol (60 munud)**

- **Dadl ar Adroddiad Blynyddol Comisiynydd Gwasanaethau Iechyd Cymru (60 munud)**

- **Dadl fer (30 munud)**